NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Cam-drin ac esgeulustod: cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel

19 Hydref 2017

Mae cam-drin plant yn golygu unrhyw beth sy'n niweidio plentyn neu berson ifanc. Gall fod yn gorfforol, emosiynol neu rywiol, neu gall fod yn ddiffyg cariad neu ofal (esgeulustod). Gall fod ar ffurfiau eraill hefyd - er enghraifft, mae'n gam-drin pan fydd plentyn yn gweld trais neu fwlio yng nghartref y teulu. Credir bod dros hanner miliwn o blant yn cael eu cam-drin yn y DU bob blwyddyn. Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, megis gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ieuenctid, athrawon ysgol a meithrin a swyddogion yr heddlu, yn gwybod sut i nodi arwyddion o gam-drin ac esgeulustod a'r hyn i'w wneud.

Hoffem sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd drwy sicrhau'r canlynol:

- bod plant a phobl ifanc sydd am siarad am gam-drin ac esgeulustod yn teimlo bob amser bod pobl yn gwrando arnynt
- bod pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn gwybod pa arwyddion allai olygu cam-drin neu esgeulustod – ac maent yn gwybod sut i weithredu pan fyddant yn eu gweld
- pan fydd plentyn mewn perygl rhoddir help cynnar i'r teulu cyfan i gadw eu plentyn yn ddiogel.

**Working with families**

Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd roi gwybodaeth glir, esbonio'r holl opsiynau ar gyfer therapi a chymorth a gwrando'n ofalus ar farn a phryderon pobl.

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

Dylent hefyd wneud y canlynol:

- gwneud yn siŵr bod teuluoedd yn deall pam eu bod wedi dechrau cymryd rhan
- esbonio pa wybodaeth sydd wedi cael ei rhannu, a gyda phwy y mae wedi'i rhannu
- esbonio'n fanwl unrhyw therapïau neu gymorth y maent yn meddwl gallai helpu
- esbonio gwasanaethau lleol, megis eiriolaeth, lle mae person annibynnol yn eich helpu i fynegi eich barn.

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich gweithiwr proffesiynol.

Ymateb i gam-drin ac esgeulustod plant - safbwynt NICE

Gellid cynnig therapi i blant sydd wedi profi cam-drin neu esgeulustod; a gellid anfon eu rhieni ar raglenni i gefnogi eu teuluoedd yn well, yn ôl canllawiau newydd gan NICE.

Dylai plant gael eu gweld a'u clywed

Mae Jo Sharpen, Rheolwr Polisi, 'Against Violence and Abuse' (AVA) yn trafod sut y gwnaeth weithio gyda NICE i sicrhau bod lleisiau plant sy'n agored i niwed yn cael eu hystyried ar gyfer y canllawiau cam-drin ac esgeulustod newydd.

"Mae plant sy'n dioddef cam-drin ac esgeulustod yn aml yn teimlo'n ynysig ac yn rhy ofnus i siarad allan.

Yn 'Against Violence and Abuse' (AVA) rydym yn gweithio'n galed i ddarparu amgylchedd lle mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel. Rydym yn eu hannog i rannu eu profiadau a gweithio gyda ni fel y gallwn eu cefnogi'n well, a phobl eraill tebyg."

### Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

#### *Pob math o gam-drin ac esgeulustod*

- NSPCC, llinell gymorth i oedolion sy'n pryderu am blentyn: 0808 800 5000
- Childline, 0800 1111

#### *Cam-drin emosiynol*

- Support Line, 01708 765200

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

***Cam-drin rhywiol neu gamfanteisio'n rhywiol***

- Rape Crisis England & Wales, 0808 802 9999
- Ymddiriedolaeth y Goroeswyr, 0808 801 0818
- Mosac, 0800 980 1958

***Ymddygiadau troseddol rhywiol***

- Sefydliad Lucy Faithfull, 0808 1000 900

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

Mae NICE wedi ysgrifennu cyngor ar wahân i helpu meddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill i ganfod cam-drin plentyn (sy'n cwmpasu cam-drin ac esgeulustod).

Gwnaethom ysgrifennu'r canllaw hwn gyda phobl y mae cam-drin plant wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-1111-0

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights